O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 2843 (Cy. 270)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 (O.S. 2011/656 (Cy. 94)).

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r diffiniad o "budd-daliad sy'n dibynnu ar brawf modd" yn unol â diwygiadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol i gynnwys Credyd Cynhwysol a gostyngiadau'r dreth gyngor, sy'n disodli cynllun budd-dal y dreth gyngor. Mae'r diffiniad o "meddiannaeth breifat" wedi ei ddiwygio i ganiatáu i'r rheini sydd o dan drefniadau ecwiti a rennir gael eu cynnwys yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 2843 (Cy. 270)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Hydref 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *5 Tachwedd 2013* |
| *Yn dod i rym* | *30 Tachwedd 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990(**1**), sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy o ran Cymru(**2**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Tachwedd 2013 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011(**3**).

---

(**1**) 1990 p. 27; diwygiwyd adran 15 gan adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p. 53).

(**2**) Cyfarwyddodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fod y swyddogaethau o dan adran 15 i fod yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p. 32), mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**3**) O.S. 2011 Rhif 656 (Cy. 94).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**2.** Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

**Diwygio rheoliad 2 (dehongli)**

**3.** Mae rheoliad 2 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(1) Yn lle'r diffiniad o "budd-daliad sy'n dibynnu ar prawf modd" *("means-tested benefit")* rhodder—

ystyr "budd-daliad sy'n dibynnu ar brawf modd" ("*means-tested benefit*") yw—

(a) cymhorthdal incwm a budd-dal tai (pob un fel y diffinnir "income support" a "housing benefit" yn ôl eu trefn yn Rhan VII o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**));

(b) cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor (fel y diffinnir "council tax reduction scheme" yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**2**));

(c) credyd pensiwn y wladwriaeth (fel y diffinnir "state pension credit" yn Neddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002(**3**));

(d) credyd treth gwaith a chredyd treth plant (fel y diffinnir "working tax credit" a "child tax credit" yn ôl eu trefn yn Neddf Credydau Treth 2002(**4**) ) cyn belled ag nad yw incwm y ceisydd yn y naill achos na'r llall yn uwch na'r trothwy incwm perthnasol;

(e) lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm (fel y diffinnir "income-related employment and support allowance" yn Neddf Diwygio Lles 2007(**5**)); ac

(f) credyd cynhwysol (fel y diffinnir "universal credit" yn Neddf Diwygio Lles 2012(**6**));

(2) Yn y diffiniad o "meddiannaeth breifat" *("private occupancy")* hepgorer "(gan gynnwys o dan drefniadau ecwiti a rennir)".

*Alun Davies*

---

(**1**) 1992 p. 4.
(**2**) 1992 p. 14.
(**3**) 2002 p. 16.
(**4**) 2002 p. 21.
(**5**) 2007 p. 5.
(**6**) 2012 p. 5.

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

31 Hydref 2013